**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**National Assembly for Wales**
Environment and Sustainability Committee

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

Rebecca Evans AC
Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd:
Llywodraeth Cymru

8 Gorffennaf 2015

Annwyl Carl a Rebecca

**Ansawdd Dŵr**

Ar 10 Mehefin 2015 cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth fer ar ansawdd dŵr yng Nghymru. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd dŵr afonydd.

Codwyd amrywiaeth o faterion gyda ni a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ymateb wedi'i gydlynu iddynt, yn ysgrifenedig.

Ar ôl inni drafod eich ymateb, byddwn yn ysgrifennu atoch eto gyda'n casgliadau.

**Bioamrywiaeth**

Dywedodd yr RSPB wrthym fod gwella ansawdd dŵr at anghenion bywyd gwyllt yn absennol o'r Strategaeth Dŵr newydd i Gymru. Roedd o'r farn y dylid diwygio'r strategaeth i ystyried hyn.

**C1: A ydych yn barod i ystyried newid y Strategaeth i'r perwyl hwn?**

**Rheolau Rhwymo Cyffredinol (GBRs)**

Mynegodd rhanddeiliaid gefnogaeth gyffredinol i'r defnydd o Reolau Rhwymo Cyffredinol, ar yr amod nad ydynt yn dyblygu rheolau presennol. Clywsom y dylent ddod â rheolau presennol ynghyd mewn ffordd syml a dealladwy, a chael cymorth gwasanaethau cynghori a chynnal. Nodwn nad yw Bil yr Amgylchedd yn

crybwyll Rheolau Rhwymo Cyffredinol; eto mae'r Strategaeth Ddŵr yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cyflwyno.

**C2: Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi eich safbwynt ar ddefnyddio rheolau rhwymo cyffredinol i wella ansawdd dŵr.**

**Dofednod**

Clywsom fod angen eglurhad a chanllawiau ynglŷn â rheoleiddio unedau dofednod dan 40-mil o adar ac mae’n bosibl y bydd angen rheoliad a gorfodaeth fwy llym. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y gall fod angen gwneud mwy o waith i ddangos tystiolaeth o lefelau llygredd o ffermydd dofednod.

Cawsom ohebiaeth ychwanegol gan aelod o'r cyhoedd sy'n pryderu am gynnig arbennig am fferm ddofednod ym Mhowys (a gyhoeddwyd fel papur i'w nodi yn ein cyfarfod ar 8 Gorffennaf, 2015). Er ein bod yn sylweddoli na allwch wneud sylw ar fater cynllunio penodol, mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn rhoi darlun o rai o'r pryderon sy'n bodoli ynglŷn â rheoleiddio unedau dofednod dan 40-mil o adar.

**C3: A fyddech cystal â nodi eich barn ar y trefniadau cynllunio, caniatáu, rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â ffermydd dofednod dan 40-mil o adar?**

**C4: A ydych yn credu bod angen rhagor o dystiolaeth i ddeall natur a graddfa'r llygredd o ffermydd dofednod?**

**Amaethyddiaeth**

Clywsom fod y Cynllun Datblygu Gwledig yn rhoi cyfle gwych i wella ansawdd dŵr. Bydd yn bwysig bod yr angen am ddull cydweithredol yn cael ei bwysleisio o’r cychwyn, i sicrhau bod rhaglenni’n bodloni amcanion ansawdd dŵr.

O ran Glastir, mae pryder ymhlith rhanddeiliaid bod y pwyslais ar ddull wedi'i dargedu drwy Glastir Uwch ac y gallai cyfleoedd i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr drwy'r cynllun lefel mynediad gael eu colli. Yn ychwanegol at hynny, clywsom alwadau eto am gynllun ar gyfer rhannau o ffermydd. Roedd barn y gellid defnyddio'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy i wella seilwaith ffermydd er budd ansawdd y dŵr. Unwaith eto, clywsom alwadau am broses ymgeisio symlach.

**C5: Heb grwydro i'r pwyntiau ehangach a godwyd mewn perthynas â Glastir, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi sut, yn eich barn chi, y bydd y Cynllun Datblygu Gwledig a Glastir yn sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr.**

### Y Gwasanaeth Allgymorth

Mae rheolwyr tir yn gweithio'n well pan mae perthynas un-i-un y gellir ymddiried ynddi, ar waith. Clywsom yr awgrym y gellid ymestyn Cyswllt Ffermio i roi cyngor mwy penodol i reolwyr tir ar atal llygru cyrsiau dŵr o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Fodd bynnag, clywsom gwestiynau hefyd ynghylch a ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn gwneud hyn (fel gyda rôl swyddog maes Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt). Ymddengys yn annhebygol y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n ymwybodol o gyfyngiadau ariannol, yn gallu cynnig y math hwn o gymorth ac mae'n annog gweithio mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector. Bydd i hyn, wrth gwrs, oblygiadau o ran adnoddau i sefydliadau'r Trydydd Sector.

**C6: A fyddech cystal â nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod rheolwyr tir yn cael y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyfrannu at wella ansawdd dŵr yng Nghymru?**

### Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES)

Clywsom rywfaint o dystiolaeth a oedd yn awgrymu y gallai PES chwarae rhan bwysig o ran annog arferion rheoli tir sy'n arwain at ansawdd dŵr gwell.

**C7: A fyddech cystal â nodi eich barn am y rôl y gallai PES ei chwarae o ran gwella ansawdd dŵr yng Nghymru?**

**C8: Pryd ydych chi'n disgwyl i PES fod yn opsiwn realistig ac ymarferol i brynwyr a gwerthwyr gwasanaethau ecosystem yng Nghymru?**

### Etifeddiaeth mwyngloddio

Mae mynd i'r afael â llygredd dŵr o fwyngloddiau segur yng Nghymru yn her enfawr a hynod o ddrud. Clywsom fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru gynllun ar waith ond bod cyflwyno'r cynllun hwn yn cael ei gyfyngu gan gyllid.

**C9: A fyddech cystal â nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater o lygredd dŵr o fwyngloddiau yng Nghymru ac amcangyfrif o'r costau?**

**Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**

Yn 2012 adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai dim ond 37% o'r cyrff dŵr yng Nghymru a oedd â 'statws ecolegol da'. Cynyddodd y ffigwr hwn i 42% yn 2014. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan ei fod yn disgwyl i 50% o'r cyrff dŵr yng Nghymru gael 'statws ecolegol da' erbyn 2015.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhybuddio Aelod-wladwriaethau os ydynt yn methu gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i fodloni'r targedau a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y gallent wynebu camau cyfreithiol posibl. Mewn adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, dywedwyd wrth Aelod-wladwriaethau y gallai'r Comisiwn ddilyn achosion o drosedd os nad oes rhagor yn cael ei wneud i weithredu strategaethau sydd wedi'u hanelu at wella statws cemegol ac ecolegol eu cyrff dŵr.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mae Dŵr Cymru yn datgan y bydd, yn 2015-2020, yn buddsoddi tua £1.7 biliwn a fydd yn cynnwys 'rhaglen fawr o welliannau amgylcheddol' i gyflawni rhwymedigaethau'r UE.

Dywed Dŵr Cymru ei fod yn cefnogi polisi 'craff' Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i dargedu adnoddau cyfyngedig ar 'enillion cyflym', gan weithio tuag at gael 50% o gyrff dŵr ar statws da erbyn 2015. Dywed fod hyn yn gadael Cymru mewn sefyllfa fwy cadarnhaol na Lloegr, lle mae'r cynnydd wedi bod yn arafach.

Fodd bynnag, mae Dŵr Cymru yn nodi dau bryder wrth symud ymlaen. Yn gyntaf, dim ond hyn a hyn y gall Dŵr Cymru ei wneud. Mae'n datgan bod y cyrff dŵr lle mae'n bwriadu buddsoddi o dan amrywiaeth o bwysau eraill (addasiadau ffisegol, llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth a dŵr o fwyngloddiau segur) a'i fod yn poeni 'oni bai bod rhywbeth yn cael ei wneud i leihau'r effeithiau eraill hyn, bydd yno fawr i'w ddangos am fuddsoddiad ein cwsmeriaid.'

Yn ail, bydd Dŵr Cymru yn buddsoddi yn ail gylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2015-2021) yn y gobaith y bydd partïon sy'n weddill yn lleihau eu heffaith erbyn 2027. Dywed:

> *'In deciding what should or should not be done during the WFD's second cycle, Welsh Minsters and NRW will need to try to keep the third (Final) WFD cycle in Wales at a manageable scale. There is a real danger that all the harder – and more expensive – problems will be stored up for the final (third) cycle and will be unaffordable for all parties.'*

**C10: A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth inni mewn perthynas ag amseriad y buddsoddiad seilwaith sydd ei angen i fodloni targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith  Dŵr a pha gamau yr ydych yn eu cymryd i gadw lefel y camau gweithredu a'r buddsoddiad sydd ei angen yn ystod y trydydd cylch 'ar raddfa hylaw'?**

Diolch i chi am eich ystyriaeth o'r cwestiynau uchod. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



Alun Ffred Jones AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**